**Adendwm i'r ddogfen *'Egwyddorion cynllunio ar gyfer Bagloriaeth Cymru – Tachwedd 2014 Yn gymwys i gyrsiau i'w haddysgu gyntaf o fis Medi 2015'.***

| Tudalen | Testun gwreiddol: | Diwygiad: |
|---|---|---|
| Y dudalen ar ôl y clawr | Yr Is-adran Cymwysterau a Rheoleiddio<br>Yr Adran Addysg a Sgiliau<br>Llywodraeth Cymru<br>Tŷ'r Afon<br>Heol Bedwas<br>Bedwas<br>Caerffili<br>CF83 8WT<br>Ffôn: 01443 663869<br>e-bosy: Wbq-cbc@cymru.gsi.gov.uk | Cymwysterau Cymru<br>Adeilad Q2<br>Pencarn Lane<br>Imperial Park<br>Coedcernyw<br>Casnewydd<br>NP10 8AR<br>Ffôn: 0333 077 2701<br>e-bost: ymholiadau@cymwysteraucymru.org |

| | | |
|---|---|---|
| Tudalen 4 | Ni fydd angen cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru a Sgiliau Allweddol Ehangach mwyach. | Ni fydd Sgiliau Hanfodol Cymru a Sgiliau Allweddol Ehangach yn ofynnol mwyach. Fodd bynnag, gall dysgwyr sy'n astudio Bagloriaeth Cymru Sylfaen (Ôl-16) a Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol (Ôl-16) **yn unig** gwblhau Sgiliau Cymhwyso Rhif Hanfodol (EAoNS) a Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol (ECommS) yn lle cymwysterau TGAU Saesneg Iaith / Cymraeg Iaith a Mathemateg / Mathemateg - Rhifedd. |
| Tudalen 4 | O ran llythrennedd a rhifedd, cynhelir yr asesiadau drwy'r arholiadau TGAU newydd mewn Cymraeg Iaith, Saesneg Iaith a Mathemateg – Rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 4. Caiff llythrennedd a rhifedd ôl-16 eu hasesu drwy'r arholiadau TGAU hyn | Ar gyfer llythrennedd a rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 4, cynhelir asesiadau drwy'r cymwysterau TGAU newydd mewn Saesneg Iaith neu Gymraeg Iaith a Mathemateg - Rhifedd neu Fathemateg. Ar lefel ôl-16, caiff llythrennedd a rhifedd eu hasesu drwy'r cymwysterau TGAU hyn neu Sgiliau Cymhwyso Rhif Hanfodol (EAoNS) a Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol (ECommS). |

| | | |
|---|---|---|
| Tudalen<br><br>5 | Cymwysterau ategol:<br><br>• TGAU Cymraeg Iaith neu TGAU Saesneg Iaith<br>• TGAU MAthemateg – Rhifedd<br>• O leiaf tri chymhwyster TGAU arall. Yng Nghyfnod Allweddol 4, gall hyd at ddau o'r rhain fod yn gymwysterau cyfatebol; ar ôl 16 oed, gall pob un fod yn gyfatebol. | Cymwysterau ategol:<br><br>• TGAU Saesneg Iaith neu TGAU Cymraeg Iaith<br>• TGAU Mathemateg - Rhifedd neu TGAU Mathemateg. Fodd bynnag, gall dysgwyr sy'n astudio Bagloriaeth Cymru Sylfaen (Ôl-16) a Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol (Ôl-16) **yn unig** gwblhau Sgiliau Cymhwyso Rhif Hanfodol (EAoNS) a Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol (ECommS) yn lle cymwysterau TGAU Saesneg Iaith neu Gymraeg Iaith a Mathemateg neu Fathemateg - Rhifedd.<br>• Tri chymhwyster TGAU arall. Yng Nghyfnod Allweddol 4, gall hyd at ddau o'r cymwysterau hyn fod yn rhai cyfwerth[1]; mewn sefyllfa Ôl-16, gall pob un ohonynt fod yn gyfwerth. |
| Tudalen<br><br>5<br><br>Troednod-yn | Mae cymwysterau cyfatebol ar y lefel briodol ac o faint priodol. Rhaid i'r cymwysterau ategol fod o faint sy'n cyfateb i hanner, neu ddau TGAU, a chânt eu talgrynnu i lawr i'r hyn sy'n briodol os ydynt yn syrthio rhwng y meintiau hyn. | Mae cymwysterau cyfwerth yn cyfeirio at gymwysterau sydd ar y lefel briodol ac sydd o faint priodol. Rhaid i gymwysterau ategol fod o faint sy'n gyfwerth ag o leiaf un cymhwyster TGAU (o leiaf 120 o Oriau Dysgu dan Arweiniad). Lle y defnyddir cymwysterau sy'n fwy o faint (e.e. cymhwyster sy'n gyfwerth â dau gymhwyster TGAU (o leiaf 240 o Oriau Dysgu dan Arweiniad)), caiff y gwerth ei dalgrynnu i lawr i'r cyfwerthedd priodol os bydd y cymhwyster rhwng dau faint. |

| | | |
|---|---|---|
| Tudalen 6 | Yn achos y dysgwyr hynny nad ydynt yn cyflawni'r holl ofynion ar gyfer Bagloriaeth Geneldaethol Cymru, ond sy'n cyflawni gofynion y Fagloriaeth Sylfaen, dyfernir Bagloriaeth Sylfaen Cymru iddynt. | I ddysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4 sy'n astudio Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol / Sylfaen Cyfnod Allweddol 4, dyfernir Bagloriaeth Cymru Sylfaen i'r rheini nad ydynt yn bodloni holl ofynion Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol ond yn bodloni gofynion Bagloriaeth Cymru Sylfaen. |
| Tudalen 6 | Cymwysterau ategol:<br>• TGAU Cymraeg Iaith neu TGAU Saesneg Iaith gan ennill graddau A*-C<br>• TGAU MAthemateg – Rhifedd gan ennill graddau A*-C<br>• Dau gymhwyster Safon Uwch, neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny. Rhaid cyflawni hyn drwy ddim mwy na thri chymhwyster gwahanol. | Cymwysterau ategol:<br>• TGAU Saesneg Iaith neu TGAU Cymraeg Iaith ar raddau A* - C<br>• TGAU Mathemateg - Rhifedd neu TGAU Mathemateg ar raddau A* - C<br>• Dau gymhwyster Safon Uwch neu gyfwerth. Mae'n rhaid bodloni'r gofyniad hwn drwy gyflawni uchafswm o dri chymhwyster ar wahân. |
| Tudalen 9 | 50 y cant | 50 y cant |
| Tudalenn-au 10-11 | Ar lefel **Genedlaethol a** Sylfaen yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ar ôl 16 oed, caiff llythrennedd a rhifedd eu hasesu drwy TGAU Cymraeg Iaith neu | Ar lefel **Genedlaethol a Sylfaen** yng Nghyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16, caiff llythrennedd a rhifedd eu hasesu drwy gymwysterau TGAU mewn |

| | | |
|---|---|---|
| | Saesneg Iaith a Mathemateg – Rhifedd gyda’r graddau a nodir yn adran ‘Strwythur cyffredinol’ ar dudalen 5.<br><br>Yn ystod dwy flynedd gyntaf Bagloriaeth newydd Cymru, bydd trefniadau dros dro a fydd yn golygu y derbynnir cymhwyster Cyfathrebu a Chymhwyso Rhif Sgiliau Hanfodol Cymru yn y sector ôl-16 yn lle TGAU, i gydnabod y ffaith mai manyleb yr hen TGAU y bydd y dysgwyr wedi’i hastudio tan eu bod yn 16 oed. | Saesneg Iaith / Cymraeg Iaith a Mathemateg / Mathemateg - Rhifedd ar y graddau a bennwyd yn adran 'Strwythur cyffredinol' ar dudalen 5.<br><br>Gall ddysgwyr sy'n astudio Bagloriaeth Cymru Sylfaen (Ôl-16) a Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol (Ôl-16) **yn unig** gwblhau Sgiliau Cymhwyso Rhif Hanfodol (EAoNS) a Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol (ECommS) yn lle cymwysterau TGAU Saesneg Iaith / Cymraeg Iaith a Mathemateg / Mathemateg - Rhifedd. |
| Tudalen<br><br>12 | Os bydd ymgeisydd yn ailsefyll, ni fydd modd iddynt ennill gradd uwch na ‘Pasio’ ar gyfer yr Her neu’r prosiect hwnnw. | Gan gyfeirio at ymgeiswyr sy'n cofrestru ar gyfer Bagloriaeth Cymru o fis Medi 2016, y radd uchaf y gall ei hennill ar gyfer yr Her honno neu'r Prosiect hwnnw fydd Llwyddiant.<br><br>Nid yw'r cyfyngiad hwn yn berthnasol i ddysgwyr a gofrestrodd yn 2015. |
| Tudalen<br><br>14 | Dyfernir y graddau canlynol ar gyfer Bagloriaeth Cymru:<br><br>• Sylfaen: Pasio* a Pasio<br>• Cenedlaethol: A*, A, B ac C<br>• Uwch: A*, A, B, C, D ac E | Yn gyffredinol, dyfernir Llwyddiant neu Fethiant ar gyfer Bagloriaeth Cymru.<br><br>Caiff Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru ei graddio fel a ganlyn:<br><br>• Sylfaenol: Llwyddiant*, Llwyddiant a Methiant<br>• Cenedlaethol: A*, A, B, C, a Methiant<br>• Uwch: A*, A, B, C, D, E, a Methiant |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| Tudalen 14 | Caiff yr Heriau a'r Prosiect Unigol hefyd eu graddio. Ar lefelau Cenedlaethol a Sylfaen, graddau'r heriau fydd:<br>• Pasio lefel Sylfaen, Pasio, Teilyngdod, Rhagoriaeth.<br><br>Ar lefel Uwch, graddau'r heriau fydd:<br>• Pasio, Teilyngdod, Rhagoriaeth. | Caiff yr Heriau a'r Prosiect Unigol eu graddio hefyd.<br><br>Ar lefelau C**enedlaethol / Sylfaen Cyfnod Allweddol 4,** dyfernir graddau ar gyfer yr Heriau / Prosiect Unigol fel a ganlyn:<br>• Methiant, Llwyddiant Lefel 1, Llwyddiant Lefel 2, Teilyngdod Lefel 2 a Rhagoriaeth Lefel 2.<br><br>Ar lefel **Sylfaen (Ôl-16),** dyfernir graddau ar gyfer yr Heriau / Prosiect Unigol fel a ganlyn:<br>• Methiant, Llwyddiant Lefel 1, Teilyngdod Lefel 1.<br><br>Ar lefel **Genedlaethol (Ôl-16),** dyfernir graddau ar gyfer yr Heriau / Prosiect Unigol fel a ganlyn:<br>• Methiant, Llwyddiant Lefel 1, Llwyddiant Lefel 2, Teilyngdod Lefel 2 a Rhagoriaeth Lefel 2.<br><br>Ar lefel **Uwch**, dyfernir graddau ar gyfer yr heriau fel a ganlyn:<br>• Methiant, Llwyddiant Lefel 3, Teilyngdod Lefel 3 a Rhagoriaeth Lefel 3. |

| | | |
|---|---|---|
| Tudalen 15 | Ni fydd graddau'r cymwysterau ategol yn effeithio ar radd gyffredinol y Fagloriaeth. | Mae'r frawddeg hon bellach wedi'i dileu. |
| Tudalen 15 | Bydd y tystysgrifau yn nodi un o'r canlynol:<br><br>• Bagloriaeth Sylfaen Cymru (Lefel 1)<br>• Bagloriaeth Genedlaethol Cymru (Lefel 2)<br>• Bagloriaeth Sylfaen Ôl-16 Cymru (Lefel 1)<br>• Bagloriaeth Genedlaethol Ôl-16 Cymru (Lefel 2)<br>• Bagloriaeth Uwch Cymru (Lefel 3). | **Bagloriaeth Cymru -** bydd tystysgrifau yn nodi un o'r canlynol:<br><br>• Bagloriaeth Cymru Sylfaen (Lefel 1)<br>• Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol (Lefel 2)<br>• Bagloriaeth Cymru Sylfaen Ôl-16 (Lefel 1)<br>• Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol Ôl-16 (Lefel 2)<br>• Bagloriaeth Cymru Uwch (Lefel 3)<br><br>**Tystysgrif Her Sgiliau -** bydd tystysgrifau yn nodi un o'r canlynol:<br><br>• Tystysgrif Her Sgiliau Sylfaen / Cenedlaethol (Bagloriaeth Cymru)<br>• Tystysgrif Her Sgiliau ôl-16 Sylfaen (Bagloriaeth Cymru)<br>• Tystysgrif Her Sgiliau ôl-16 Genedlaethol (Bagloriaeth Cymru)<br>• Tystysgrif Her Sgiliau Uwch (Bagloriaeth Cymru). |